

**2020 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth  
am Blant mewn Ysgolion  
Annibynnol) (Cymru) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 537A a 569 o Ddeddf Addysg 1996. Daw'r Rheoliadau i rym ar XXX.

Bydd yn ofynnol i ysgol annibynnol yng Nghymru ddatgelu i awdurdod lleol ar unrhyw adegau a bennir gan Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen ac sydd ar gael iddi (rheoliad 3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: [ ], Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**2020 Rhif (Cy.)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth  
am Blant mewn Ysgolion  
Annibynnol) (Cymru) 2020**

*Gwnaed* \*\*\*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* \*\*\*

*Yn dod i rym* \*\*\*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A a 569 o Ddeddf Addysg 1996, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XX.

**Dehongli**

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw awdurdod lleol yng Nghymru;

ystyr “awdurdod lleol perthnasol” (“*relevant local authority*”) yw'r awdurdod lleol y mae'r plentyn yn preswyllo fel arfer ynddo;

---

(1) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), ac fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 537A a 569 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Addysg 1996;

ystyr “plentyn” yw plentyn o oedran ysgol gorfodol o fewn ystyr “compulsory school age” yn adran 8 o’r Ddeddf;

mae i “rhiant” yr un ystyr â “parent” yn adran 576 o’r Ddeddf;

ystyr “ysgol annibynnol” (“*independent school*”) yw ysgol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002(1).

### **Datgelu gwybodaeth i awdurdod lleol**

3. Rhaid i ysgol annibynnol ddatgelu i bob awdurdod lleol perthnasol ar unrhyw adegau a bennir gan Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen sy’n ymwneud â phlentyn ac sydd ar gael i’r ysgol annibynnol.

*Enw*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

---

(1) 2002 p. 32.

## YR ATODLEN

Cyf

### Yr wybodaeth sydd i'w darparu i'r awdurdod lleol

1. Enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol).
2. Cyfeiriad a chod post cyfredol y plentyn.
3. Rhywedd y plentyn neu os nad yw rhywedd y plentyn wedi ei bennu, datganiad i'r perwyl hwnnw.
4. Dyddiad geni'r plentyn.
5. Enw a manylion cyswllt unrhyw riant i'r plentyn.